## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu |
| **DYDDIAD:** | 1af Rhagfyr 2021 |
| **LLEOLIAD:** | Cyfarfod dros y we |
| **TEITL:** | Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) Ceredigion a gynhaliwyd ar 17 Medi 2021 a'r Asesiad o Lesiant Lleol Drafft |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Rhoi cyfle i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu graffu ar y penderfyniadau neu'r camau gweithredu a wnaed gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. |
| **RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | Fel y Pwyllgor Craffu a ddynodwyd i gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |

**CEFNDIR:**
O dan Adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y pŵer i graffu ar y penderfyniadau a wneir, neu gamau eraill a gymerir, gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

**COFNODION CYFARFOD BGC CEREDIGION A GYNHALIWYD AR Y 17 MEDI 2021**
Cyflwynir i'r Pwyllgor gofnodion drafft cyfarfod PSB Ceredigion a gynhaliwyd ar 17 Medi 2021, ac maent i'w gweld yn **Atodiad 1.**

**ASESIAD O LESIANT LLEOL DRAFFT**
Mae BGC Ceredigion wedi cynhyrchu'r Asesiad Llesiant Lleol drafft er mwyn llywio'r gwaith o baratoi Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28. Bydd y Cynllun yn nodi sut y bydd y BGC yn gwella llesiant Ceredigion a'i chymunedau dros y 5 mlynedd nesaf.

Trafodwyd yr Asesiad drafft yng nghyfarfod y BGC ar 18 Tachwedd 2021 ac mae bellach yn cael ei gyflwyno i'w graffu fel rhan o'r broses ymgynghori. Mae'r Asesiad drafft i'w weld yn **Atodiad 2.**

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**<br><br>***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Cydweithio:** | Nac oes, am nad yw'r adroddiad yn newid Polisi neu Wasanaeth. |

**Cynnwys:**
**Atal:**
**Integreiddio:**

**ARGYMHELLION**

i. Derbyn cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 17 Medi 2021.
ii. Derbyn yr Asesiad o Lesiant Lleol drafft sydd allan i ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:**

Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Alun Williams |
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi a Pherfformiad |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 08/11/2021 |
| **Acronymau:** | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) |